OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1622 (Cy.152)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU
# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) (Dirymu) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *16 Mehefin 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *17 Mehefin 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *18 Mehefin 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**).

Cafodd Gweinidogion Cymru eu dynodi at ddibenion yr adran honno o ran mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol ar fwyd a mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu y porthir anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd ag ef(**2**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) (Dirymu) 2010 a deuant i rym ar 18 Mehefin 2010.

### Dirymu

**2.**—(1) Dirymir Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) 2008(**3**).

(2) Dirymir Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) (Diwygio) 2008(**4**).

(**1**) 1972 p.68.
(**2**) O.S. 2005/1971. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y dynodiad hwn i Weinidogion Cymru gan baragraffau 28 a 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
(**3**) O.S. 2008/781 (Cy.80).
(**4**) O.S. 2008/1646 (Cy.159).

*Gwenda Thomas*
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

16 Mehefin 2010

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1.** Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) 2008 (O.S. 2008/781 (Cy.80)) ("y prif Reoliadau") ynghyd â Rheoliadau Cynhyrchion Reis o Unol Daleithiau America (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) (Diwygio) 2008 (O.S. 2008/1646 (Cy.159)).

**2.** Rhoddodd y prif Reoliadau ar waith, o ran Cymru, Benderfyniad y Comisiwn 2006/601/EC ar fesurau argyfwng ynghylch yr organedd a addaswyd yn enetig nas awdurdodwyd "LL RICE 601" mewn cynhyrchion reis (OJ Rhif L244, 7.9.2006, t.27) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 2008/162/EC sy'n diwygio Penderfyniad 2006/601/EC ar fesurau argyfwng ynghylch yr organedd a addaswyd yn enetig nas awdurdodwyd "LL RICE 601" mewn cynhyrchion reis (OJ Rhif L52, 27.2.2008, t.25). Dirymwyd Penderfyniad y Comisiwn 2006/601/EC gan Benderfyniad y Comisiwn 2010/315/EU sy'n dirymu Penderfyniad 2006/601/EC ar fesurau argyfwng ynghylch yr organedd a addaswyd yn enetig nas awdurdodwyd "LL RICE 601" mewn cynhyrchion reis, ac yn darparu ar gyfer profi ar hap am absenoldeb yr organedd hwnnw mewn cynhyrchion reis (OJ Rhif L141, 9.6.2010, t.10).